Adroddiad ar

Gylch Meithrin Ponthenri

Neuadd Gymuned Ponthenri
Bargoed Terrace
Ponthenri
Llanelli
Caerfyrddin
SA15 5PW

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Ponthenri

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Ponthenri |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Rachel Dennis-Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Rachel Dennis-Jones |
| Person â gofal | Sarah Phillips |
| Nifer y lleoedd | 16 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 6 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Iau 9am-3pm Dydd Gwener 9am-12pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers iddynt ailgofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hydref 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 20/05/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Defnyddio arsylwadau ac asesiadau yn fwy cyson ac effeithiol i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer datblygu gwahanol fedrau'r plant.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan bron bob un plentyn lais cryf, a gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau'n hyderus wrth chwarae. Maent yn symud rhwng gwahanol weithgareddau'n hapus ac yn dilyn eu diddordebau personol yn effeithiol. Er enghraifft, yn ystod amser canu a chyfarch, mae plant yn dewis ymgymryd â gweithgaredd chwarae yn hytrach nag eistedd ar y mat, ac mae hyn yn cael ei barchu. Mae eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn dda. Maent yn sgwrsio'n hyderus gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwrando arnynt.

Mae bron bob un plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfarwydd â threfniadau'r sesiwn. Maent yn setlo'n gyflym wrth gyrraedd ac yn trosglwyddo o'u rhieni neu ofalwyr heb drafferth. Mae'r ychydig iawn sy'n ansicr yn ymlacio'n gyflym wedi iddynt dderbyn cysur gan ymarferwyr. Mae'r plant yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau priodol. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn chwarae yn y gegin gan ddynwared paratoi bwyd i'r ymarferydd ac wrth gymysgu dŵr a phowdwr ysgytlaeth i greu 'paent.'

Mae'r plant yn rhyngweithio mewn modd cadarnhaol. Mae bron bob un yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn gytûn, gyda lleiafrif yn dechrau cyd-chwarae ag eraill, er enghraifft wrth chwilio am ddinosoriaid yn y tywod. Yn ogystal, maent yn dewis eistedd wrth ochr eu ffrindiau yn ystod amser byrbryd ac amser cylch. Mae bron bob un yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol iawn ag ymarferwyr, gan eu cynnwys yn eu chwarae neu eistedd ar eu cluniau adeg amser cylch. Mae bron bob un plentyn yn weithgar ac yn dysgu'n effeithiol drwy chwarae. Maent yn chwilfrydig iawn ac yn arbrofi â diddordeb brwd gyda'r chwistrelli yn y twba dŵr ac wrth gymysgu pridd a dŵr i greu cacennau yn y gegin fwd. Maent yn mwynhau cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau corfforol, fel cydbwyso ar y beic cydbwysedd ac wrth fentro ar y ffrâm ddringo.

Mae bron bob un plentyn yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda. Maent yn helpu eu hunain yn gwrtais i fyrbryd, yn taenu menyn ar dost ac yn arllwys llaeth neu ddŵr i mewn i gwpan yn annibynnol. Maent hefyd yn cymryd cyfrifoldeb da dros eu hylendid personol ac yn defnyddio'r tŷ bach yn annibynnol ac yn golchi a sychu eu dwylo.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth effeithiol ar gyfer y plant. Maent yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Maent yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol ac yn cynnig byrbrydau a diodydd iach a maethlon, sy'n cynnwys ffrwythau ffres, llaeth a dŵr. Maent yn sicrhau y caiff unrhyw alergeddau ac anghenion dietegol eu cofnodi er mwyn sicrhau y gall pob un o'r plant fwynhau eu prydau bwyd yn ddiogel. Mae'r lleoliad wedi cael hyfforddiant i gefnogi'r plant i frwsio dannedd yn ddyddiol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n barhaus ar gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn drylwyr ac yn gweithredu gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn neu ymarferydd. Mae gan staff dystysgrifau cyfredol ar gyfer cymorth cyntaf, diogelu ac hylendid bwyd. Mae trefniadau ar waith ar gyfer adnewyddu'r hyfforddiant diogelu plant i gyd-fynd â'r safonau cenedlaethol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn wrth ddelio ag unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau neu salwch, ac yn cadw cofnodion cywir.

Mae ymarferwyr yn talu sylw arbennig i bob agwedd o hylendid. Er enghraifft, maent yn gwisgo ffedog i baratoi byrbrydau, ac yn annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ac i fwyta ac yfed yn iach. Maent yn dilyn trefn gadarn wrth newid cewynnau plant, gan sicrhau eu bod yn glanhau'r mat ac yn newid menig a ffedog rhwng pob newidiad.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion a'u hoffterau. Maent yn rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn ffurfio perthynas agos a naturiol iawn â'r plant. O ganlyniad, mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau'r ymarferwyr yn gyson. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol, gan gynnwys plant sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn cydweithio'n agos ag asiantaethau amrywiol er mwyn darparu cefnogaeth arbenigol briodol ar gyfer y plant, yn ôl y galw.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod effeithiol o weithgareddau chwarae. Maent yn cefnogi plant wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau gan fodelu yn bwrpasol, er enghraifft wrth droelli a rholio cylchyn hwla ar lawr. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd addas i'r plant ddatblygu amrywiaeth o fedrau, er enghraifft medrau corfforol manwl a bras, medrau mathemategol, medrau cyfathrebu a medrau personol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr wedi meithrin perthynas glòs, gartrefol â'r plant. Maent yn trafod yn hamddenol gyda nhw ac yn ymwybodol o'u gofynion unigol. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnig profiadau gwerthfawr ac yn ymateb i anghenion y plant yn llwyddiannus, yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, mae plant yn chwilfrydig i chwarae am gyfnodau estynedig, gan ymgolli'n llwyr.

Mae ymarferwyr yn fodelau iaith da, ac maent yn defnyddio geirfa briodol er mwyn sicrhau dealltwriaeth y plant. Gwneir defnydd gwerthfawr o gynllun iaith, drama a cherddoriaeth yn ystod sesiynau amser cylch er mwyn cyflwyno geirfa newydd i'r plant mewn ffordd gadarnhaol a hwylus.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu sydd yn annog y plant i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, medrus. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd iddynt ddewis y gweithgaredd nesaf, dewis byrbryd, arllwys diod a thorri ffrwythau yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol a moesol y plant yn llwyddiannus. Maent yn dysgu'r plant am y gwahaniaeth rhwng da a drwg a phwysigrwydd parchu eraill. Maent yn cefnogi'r plant yn effeithiol i fod yn garedig. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod pawb yn holi ac ateb 'sut wyt ti?' i'w gilydd yn ystod amser cylch ac yn annog y plant i ddweud 'diolch' wrth basio'r jwg llaeth yn ystod amser byrbryd.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau amrywiol ac adnoddau o ansawdd uchel sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol y plant yn dda. Maent yn cynnig cyfleoedd eang i blant fwynhau rhannu llyfrau a chreu marciau cynnar mewn amrywiaeth o ardaloedd tu mewn a thu allan. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu a darllen cynnar y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant yn bwrpasol er mwyn cefnogi'r dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cydweithio â'r plant i greu patrwm ar y blwch golau ac i adeiladu tŵr o flociau pren.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn fentrus ac yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gynllunio profiadau buddiol. Mae ystod o brofiadau dysgu a chwarae tu fewn a thu allan yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y plant. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu'n ymarferol ac i fod yn greadigol, megis dilyn rysáit i greu cacen yn y gegin fwd a pheintio potiau planhigion.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau digidol ar draws yr ardaloedd sy'n galluogi'r plant i'w defnyddio'n hyderus a phwrpasol. Er enghraifft, mae camerâu digidol ar gael i blant dynnu ffotograffau o'i gilydd ac o'u gwaith. Maent yn cynllunio'n drwyadl er mwyn creu amgylchedd sy'n hyrwyddo medrau datrys problemau a meddwl, wedi'u cefnogi gan ystod o adnoddau pen agored ac offer amrywiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio offer cyfri syml yn effeithiol er mwyn annog y plant i gyfateb beic i'r lle parcio cywir a llwy de a phot planhigion bioddiraddadwy bach i adeiladu cestyll yn y twba tywod.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o'u harsylwadau ar gyflawniadau'r plant, ac mae hyn yn dechrau arwain at gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Er hynny, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn gwneud defnydd digon cyson o'r wybodaeth hon er mwyn targedu'r camau nesaf yn y gwahanol fedrau.

### Yr amgylchedd: Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae hyn yn hybu diogelwch a lles y plant yn effeithiol. Mae ganddynt drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg gweledol yn ddyddiol ac mae asesiadau risg priodol ar gyfer gweithgareddau, ardaloedd ac ymweliadau. Datblygwyd asesiadau risg ychwanegol yn ystod yr ymweliad ar gyfer yr ardal allanol i ddangos sut cedwir plant yn ddiogel rhag crwydro o'r ardal, ynghyd â'r defnydd o offer diogelu a chymorth ychwanegol gan ymarferwyr ar gyfer y ffrâm ddringo. Mae'r ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn ofalus mewn amgylchedd diogel. Maent yn cynnal ymarferion tân er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn pe bai argyfwng. Mae'r offer diffodd tân a'r offer trydanol yn cael eu gwirio'n flynyddol.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn groesawgar gyda gwaith celf y plant a ffotograffau yn cael eu harddangos, sy'n hybu ymdeimlad o berthyn. Mae'r ardaloedd tu mewn wedi'u trefnu'n dda a'u cyflwyno gyda gofal, gan gynnig cyfleoedd a gofod pwrpasol i'r plant. Mae adnoddau pwrpasol yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb gymorth oedolyn. Mae'r ardaloedd chwarae a'r offer yn cael eu glanhau'n rheolaidd ac mae'r adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da.

Mae arweinwyr yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i blant mewn gwahanol ystafelloedd, gan eu hannog i fod yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus. Maent yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae yn cynnig profiadau amrywiol iddynt. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd i chwarae'n ddychmygus, yn ogystal â man cysurus i ymlacio ar adegau tawel. Maent yn cynnwys dewis da o adnoddau 'go iawn' a naturiol fel llestri a darnau pren o wahanol faint sy'n cynnig cyfleoedd iddynt arbrofi ag adnoddau cynaliadwy. Mae hyn yn cynnig profiadau positif yn eu chwarae gan fod y plant yn ymdrin ag adnoddau sy'n rhan o

fywyd dyddiol. Caiff cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol eu hyrwyddo drwy ddewis o lyfrau, casgliad o offerynnau, doliau, offer chwarae byd bach a dillad gwisgo i fyny.

Mae'r ardal allanol yn cynnig lle agored o fewn ffens ddiogel pan mae'r plant allan yn chwarae. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod cyfyng sydd ar gael, gan gynnig cyfleoedd chwarae i grwpiau bach o blant. Mae'n cynnig cyfle creadigol i blant yn y gegin fwd, chwarae gyda dŵr ac offer gwneud marciau. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a chyson i'r plant. Dewisant adnoddau yn ofalus er mwyn ymateb i ddiddordebau a syniadau'r plant. Er enghraifft, maent yn ymateb i un o ddiddordebau cyfredol y  plant trwy gynnig cyfleoedd iddynt chwilota am wahanol ddinosoriaid plastig yn y twba tywod.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae arweinwyr yn gosod lles plant yn ganolog i bopeth a wnânt. Mae ethos cadarnhaol yn y lleoliad lle mae plant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae perthynas weithio gadarnhaol rhwng yr arweinwyr a'r ymarferwyr. Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth yn glir ac yn cynnig darlun cywir o'r lleoliad. Maent yn cyflwyno 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg, yn cydymffurfio â rheolau AGC ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel sydd yn sicrhau bod pawb yn cydweithio'n gryf fel tîm. Maent yn frwdfrydig ac yn ymroi i ddarparu amgylchedd ysgogol a phwrpasol. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol ac mae gan bob ymarferydd gontract cyflogaeth a swydd-ddisgrifiad perthnasol.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno'u gwella ac yn gweithredu arnynt yn effeithiol; er enghraifft, maent wedi mynychu hyfforddiant yn ddiweddar i ymateb i dargedau'r cynllun gwella. Maent yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd pwrpasol i gyfrannu at drafodaethau goruchwylio ynghyd â hunanwerthusiad y lleoliad. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau rheolaethol yn llwyddiannus, gan gynnwys defnydd bwriadus o'r grant datblygu disgyblion y blynyddoedd cynnar.

Mae'r lleoliad yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu staff yn effeithiol ac yn mynychu hyfforddiant pwrpasol yn gyson. Mae hyn yn cael  effaith bositif ar safonau dysgu ac addysgu o ddydd i ddydd. Maent yn manteisio ar adolygiadau, cyngor ac adborth gan asiantaethau allanol, megis yr athrawes ymgynghorol a'r Mudiad Meithrin. Maent yn mynd i'r afael â phryderon yn effeithiol, gan gyfeirio'n bwrpasol at yr asiantaethau cywir er mwyn cynorthwyo unigolion.

Mae'r broses rheoli perfformiad wedi'i sefydlu'n gadarn, ac mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i'r ymarferwyr ar gyfer datblygu eu medrau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus.

Mae gan yr arweinwyr a'r ymarferwyr berthynas gryf â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw er mwyn medru gweithio'n effeithiol i wella lles a dysgu'r plant o ddydd i ddydd. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn modd pwrpasol i olrhain cynnydd a chyfathrebu â rhieni yn fedrus. Gwneir defnydd da o'r gweithdrefnau hyn  i hysbysu rhieni a gofalwyr o negeseuon pwysig, digwyddiadau ac i adrodd yn unigol ar ddatblygiad a gofal plant drwy luniau.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu cysylltiadau gwerthfawr â'r gymuned ehangach er mwyn meithrin ymdeimlad o berthyn yn y plant. Er enghraifft, maent yn cynnal partïon i'r gymuned yn achlysurol ac maent wedi creu cysylltiadau â'r cartref gofal lleol. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn dda, ac maent yn defnyddio'r ardal gyfagos yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn mynd â'r plant am dro yn yr ardal leol er mwyn trafod gwahanol nodweddion yr ardal sy'n gyfarwydd iddynt.

Mae gweithdrefnau pontio cadarn ar waith i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'r ysgolion lleol ac mae hyn yn paratoi'r plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn fwriadus. Maent wedi creu llyfrau lluniau o'r ysgolion i'r plant gael pori trwyddynt, er mwyn ymgyfarwyddo cyn ymweld â'r ysgol ar gyfer sesiynau blasu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2025